HSC(6)-02-22 PTN 22

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

30 Awst 2022

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf 2022 ynglŷn â chynnydd tuag at ddileu hepatitis C yng Nghymru.

Mae'r ddogfen sydd wedi'i hatodi yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag argymhellion adroddiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd ar gynnydd tuag at ddileu hepatitis C, yn ogystal ag ymatebion i'r materion penodol eraill a godwyd gennych.

Diolch i chi a gweddill y Pwyllgor am eich diddordeb parhaus yn y mater pwysig hwn.

Yn gywir,

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i gais y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am ddiweddariad ar y cynnydd tuag at ddileu hepatitis C yng Nghymru

1. **A wnewch chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses o weithredu pob argymhelliad, gan gynnwys y camau a gymerwyd, unrhyw gamau arfaethedig, a, lle bo'n briodol, manylion ynghylch yr adnoddau cysylltiedig a'r amserlenni arfaethedig, a manylion ynghylch sut y mae effaith a chanlyniadau'r camau gweithredu a'r gwariant yn cael eu gwerthuso a'u mesur (neu sut y bydd hynny'n digwydd)?**

Argymhelliad 1. *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn creu strategaeth ddileu genedlaethol, gynhwysfawr ar gyfer Hepatitis C. Dylai'r strategaeth honno gynnwys targedau uchelgeisiol clir, a dylai hefyd gynllunio ar gyfer y gweithlu. Dylid darparu cyllid cynaliadwy hyd nes y caiff yr haint ei ddileu. Rhaid gwneud hyn yn ddiymdroi, o gofio y bydd y cynllun presennol yn dod i ben eleni, ac mai dim ond tan 2021 y mae cyllid wedi'i gadarnhau ar gyfer swyddi penodol.*

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynhyrchu Cylchlythyrau Iechyd Cymru cyfnodol ar gyfer GIG Cymru yn amlinellu cynnydd ac yn amlygu camau gweithredu penodol y mae eu hangen i ddileu hepatitis C erbyn 2030 fan bellaf. Gwnaethom ddatgan y byddai perfformiad yn erbyn y gofynion hyn (gan gynnwys targedau) yn cael ei archwilio a'i fonitro gan drefniadau rheoli perfformiad presennol y GIG. Mae'r ymateb i'r pandemig wedi bod yn brif flaenoriaeth inni ac yn naturiol, roedd rhaid ailgyfeirio adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru ac o fewn ein GIG. Rwy'n cydnabod yr angen i ailfywiogi'r ymgyrch i ddileu hepatitis C wrth i'n gwasanaethau adfer ac addasu i ymateb i'r heriau a wynebir wedi dwy flynedd o'r pandemig.

Ein bwriad yw nodi ein disgwyliadau gan gynnwys targedau a chamau gweithredu sy'n flaenoriaeth i'r GIG a'r Byrddau Cynllunio Ardal mewn cyfathrebiadau yr hydref hwn. Bydd y cyllid canolog sydd ar gael i gefnogi'r ymgyrch i ddileu hepatitis C yn cael ei nodi'n glir.

Argymhelliad 2. *Rhaid i'r strategaeth gynnwys ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi'i thargedu er mwyn cyrraedd cymunedau sy'n wynebu risg, ynghyd â darparu ar gyfer rhoi addysg a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol.*

Rydym yn llwyr dderbyn bod buddsoddi mewn gwasanaethau allgymorth sefydlog ac effeithiol er mwyn ymgysylltu ag unigolion nad ydynt ar hyn o bryd mewn cysylltiad â gwasanaethau traddodiadol yn hanfodol i sicrhau cynnydd. Roedd ein hymdrechion helaeth i ddiogelu pobl ddigartref a'r rhai sy'n cysgu allan yn ystod pandemig y coronafeirws yn cynnwys gwaith wedi'i dargedu i godi ymwybyddiaeth a chyllid ar gyfer cyflwyno rhaglen gymorth yr Hepatitis C Trust 'Follow Me' sy'n dechrau cryfhau'r rhwydwaith cefnogaeth gan gymheiriaid yng Nghymru. Bydd cryfhau gwaith

sydd wedi'i dargedu i ddod o hyd i achosion yn y gymuned yn ogystal â rôl hanfodol cefnogaeth gan gymheiriaid yn rhan allweddol o'n cyfathrebiadau â gwasanaethau yn yr hydref.

Mae addysg a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol eisoes ar gael yn gyffredinol. Caiff y rhain eu cefnogi ymhellach wrth ddatblygu datganiad ansawdd ar gyfer clefyd yr afu a fydd yn cynnwys ffocws parhaus ar gyflawni ein targedau i ddileu hepatitis C. Bydd y datganiad ansawdd yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer gwasanaethau clinigol gan ddisgrifio'r canlyniadau a'r safonau y disgwyliwn eu gweld mewn gwasanaethau o safon uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

Argymhelliad 3. *Os am gyrraedd targed dileu 2030 yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Cyllid a Phrif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol i bwysleisio bod yn rhaid ystyried y targedau triniaeth cenedlaethol ar gyfer Hepatitis C fel y targedau mwyaf sylfaenol, gyda'r nod o ragori arnynt lle bynnag y bo modd.*

Bydd Cylchlythyr Iechyd Cymru y bwriedir ei rannu â Phrif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid y GIG yr hydref hwn yn pwysleisio bod yn rhaid ystyried unrhyw dargedau penodol fel y targedau mwyaf sylfaenol, ac i ragori arnynt lle bynnag y bo modd.

Argymhelliad 4. *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwella'r profion am Hepatitis C mewn carchardai yng Nghymru.*

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol er mwyn gwella'r profion am hepatitis C mewn carchardai. Dyrannwyd £231,000 o gyllid refeniw yn 2020/2021 er mwyn cefnogi deunyddiau traul profion, ynghyd â £57,000 o gyllid cyfalaf yn 2021/2022 ar gyfer peiriannau profi ychwanegol.

Mae profion optio allan wedi'u rhoi ar waith ar draws carchardai yng Nghymru ers 2016 a chânt eu monitro'n barhaus. Cyn y pandemig, roedd y ffigurau ar gyfer profion optio allan yn cynyddu mewn modd cyson. Er gwaethaf effaith y pandemig ar y gwaith o brofi yng ngharchardai Cymru, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y profion a wneir ers 2020. Yn ystod 2021, cyflawnwyd cyfradd brofi o 50.1% o gymharu â 30.9% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae nifer y profion a wneir bron wedi'i adfer i lefelau cyn y pandemig, pan gafwyd cyfradd brofi o 56.6% yn 2019.

2. A wnewch chi ddarparu gwybodaeth a data ynghylch y triniaethau a ddechreuwyd ers 2020?

Gweler o'r graff isod fod y triniaethau a ddechreuwyd wedi gostwng yn naturiol yn 2020/21 ond gwelwyd adferiad cryf yn 2021/22 er gwaethaf yr heriau a wynebwyd gennym.



3. A wnewch chi ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Adfer ar gyfer Feirysau a Gludir yn y Gwaed ac unrhyw gymorth ehangach a ddarperir gan Lywodraeth Cymru?

Cynhaliwyd gweithdai cenedlaethol ym mis Hydref y llynedd ac eto ym mis Mai eleni i gefnogi byrddau iechyd i ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau adfer ac i ystyried:

- a oedd y gwaith o ddileu'r feirysau ar y trywydd iawn ym mhob ardal
- a oedd gwasanaethau wedi'u mapio'n llawn ym mhob ardal a dadansoddiad o'r bylchau wedi'i gynnal ar gyfer ymyraethau wedi'u targedu
- a oedd pob gwasanaeth perthnasol yn cymryd rhan yn y gwaith o ddileu'r feirysau
- a oedd gan bob gwasanaeth yr adnoddau digonol ar gyfer dileu'r feirysau
- y camau hanfodol eraill sydd eu hangen nesaf.

Yn genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gyllido ystod o swyddi cydgysylltu drwy waith y Grŵp Gweithredu ar Glefyd yr Afu a chyda'r cyllid hwn, mae'r cynnydd a ganlyn wedi'i gyflawni:

- Mae profion am Feirysau a Gludir yn y Gwaed mewn carchardai wedi'u cefnogi, gyda'r nod o'u dileu yn ein carchardai
- Treialu'r modd o gael gafael ar brofion cyflym mewn fferyllfeydd cymunedol
- Treialu gweithwyr cymorth cymheiriaid yn y gymuned er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n cael eu profi a gwella'r cyswllt â thriniaeth
- Mae Cam 2 o'r rhaglen ailgysylltu â chleifion â Hepatitis C wedi dechrau er mwyn ailgysylltu â'r rhieni a brofodd yn bositif yn hanesyddol ond nad yw'n ymddangos eu bod wedi cael triniaeth.

4. A wnewch chi gadarnhau targed Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu'r feirws (ac a oes ganddi unrhyw gynlluniau i bennu targed mwy uchelgeisiol, yn unol â'r gwledydd eraill)? Hefyd, a wnewch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd yn cyflawni ei tharged?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i ddileu hepatitis C erbyn 2030 fan bellaf. Er nad ydym yn diystyru symud y dyddiad targed ymlaen yn y dyfodol, yn realistig, mae'r targed presennol o'i ddileu erbyn 2030 eisoes yn un heriol iawn.